

Wrth iddynt ddatblygu

Dawns y Ddraig

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Darllenwch rannau o'r stori/ chwaraewch rannau o'r stori a adroddir
- Anogwch y plant i ddefnyddio ac addasu'r sgiliau y maent wedi'u datblygu eisoes o ran Ymwybyddiaeth o'r Corff a Symud, er mwyn dangos ystod o symudiadau creadigol sy'n cydfynd â'r rhan honno o'r stori

Geiriau allweddol

- cropian yn y garej
- siglo a rhoio fel ŵy
- pwnio trwy'r plisgyn
- ysgwyd y breichiau a'r coesau
- cyrlïo'r corff yn belen yn y nos
- rhoio i lawr y llethr
- symud bysedd y dwylo a'r traed
- wiglo pen-âl
- ymestyn ac agor ceg
- neidio mewn ofn
- troi yn yr awyr



Cyfleoedd i:

- ymuno, neu symud yn rhydd i'r gerddoriaeth
- dynwared gweithrediadau, synau a geiriau'n fras
- symud yn ddychmygus

Adnoddau

- Rhubanau/sgarffiau
- Offerynnau taro a/neu gerddoriaeth/stori oddi ar y CD-Rom
- Chwaraewr cryno-ddisgiau
- Llyfr stori 'Megan a'r Ddraig Fach'

Cwestiynau

- Sut gallwch chi symud fel mae'r ddraig yn hedfan?
- Pryd gallech chi symud ar eich bol?
- Dychmygwch eich bod chi'n gwingo ac yn wiglo ym mhoced Megan. Sut gallech chi symud?
- Sut gallwch chi wneud hynny gan symud tuag yn ôl?

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn gweithio yn eu 'swigod'

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn ymuno, ac yn symud yn rhydd?
- Yn dynwared yn fras y gweithrediadau, y synau a'r geiriau sy'n gysylltiedig â Megan a'r Ddraig Fach?
- Yn symud yn ddychmygus wrth ymateb i'r symbyliadau?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- ailadrodd ei weithrediadau
- trafod ansawdd ei weithrediadau, e.e. a yw ymestyn yn air cryf neu'n air gwan? Cryf - Sut galli di ddangos gweithred ymestyn gryf i fi?
- perfformio ei weithrediadau am fwy o amser
- dangos ei weithrediadau i blentyn arall fel y gall y plentyn hwnnw eu copïo neu'u haddasu
- dechrau dangos emosiynau trwy ei weithrediadau dawnsio: hapus, trist ac ati

Anogwch y plentyn i:

- ganolbwyntio ar ei hoff weithred
- copïo eich symudiadau/gweithrediadau
- gwyllo plant eraill i gael syniadau. Beth mae'n ei hoffi? Sut gallai e' wneud hynny?
- dod o hyd i symbyliadau eraill sy'n ei ysbrydoli: lluniau, clipiau fideo, cerddi, rhigymau â symudiadau, a chaneuon a cherddoriaeth, ac ati
- ateb cwestiynau am y symudiadau y gallai eu defnyddio, e.e. beth sy'n siglo? Jeli - sut mae jeli'n symud? Dangos i fi sut gallet ti symud fel jeli, ac ati
- ymarfer ei sgiliau Ymwybyddiaeth o'r Corff gan ddefnyddio'r Cardiau Sgiliau Technegol

Cyfleoedd campus

- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu: Llafaredd - mynegi meddyliau, syniadau a theimladau, cyfathrebu ag eraill
- Datblygiad Creadigol: Symud creadigol - datblygu eu hymatebion i wahanol symbyliadau megis cerddoriaeth, lluniau, geiriau a syniadau
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad cymdeithasol - meithrin hunanhyder